



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

14 Mai 2021

9:00 yb – 12:00 yp

Ar MS Teams

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones (yn bresennol tan 11:00 yb), Bethan E Jones, Catrin Roberts (yn bresennol tan 10 yb), y Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Christine Jones, Cyng. Joan Lowe, Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. Llinos Medi Huws (yn bresennol tan 10:00 yb), Delyth Lloyd-Williams, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone (yn bresennol tan 10 yb, Fon Roberts, Helen Corcoran, Jenny Williams, John Gallanders, John Gladston, Jo Whitehead, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Rob Smith, Shan Lloyd Williams, Sian Tomos (yn bresennol ar ran Roma Hooper), Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Barry Argent, Chris Stockport, Cyng Louise Emery, Dr Lowri Brown, Lucy Reid, Mark Wilkinson, Roma Hooper, Sam Parry
Hefyd yn bresennol:	Stephen Hughes, cadeirydd VAWDASV (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen) Rhiannon Edwards, Ymgynghorydd VAWDASV (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)

Eitem		Camau gweithredu
1.	<u>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</u> Croesawodd y cadeirydd aelodau newydd y Bwrdd; Catrin Roberts, Pennaeth Cydweithredud Rhanbarthol, Jo Whitehead Prif Swyddog Gweithredol BIPBC, Meinir Williams-Jones Cynrychiolydd y Trydydd Sector a Sian Tomos, Dirprwy Gynrychiolydd y Trydydd Sector.	
2.	<u>Nodiadau a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – Ebrill 2021</u> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09.04.2021 yn gywir. Camau Gweithredu a gwblhawyd: <ul style="list-style-type: none">• Rhannu dolenni'r wasg â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru• Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu BPRh – <i>bydd y dogfennau terfynol Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys ym mhecyn cyfarfod mis Mehefin 'er gwybodaeth'</i> Camau gweithredu heb eu cwblhau: <ul style="list-style-type: none">• Dosbarthu llythyr PB ac ymateb LIC ar ôl ei dderbyn -	

	<p><i>Dal i ddisgwyl am ymateb LIC - RW</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • FJ i ddarparu rhagor o wybodaeth am nifer y bobl sy'n dewis peidio â derbyn y brechlyn. <i>Niferoedd wedi'i rhannu fesul clwstwr i'w rannu.</i> • Addasu Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Gofal Mwy Dwys – <i>Adroddiad diwygiedig i'w ddarparu ym mis Gorffennaf a bydd yr Uned Gyflawni hefyd yn mynychu.</i> <p>Materion yn codi: <u>Fframwaith ar gyfer gwreiddio dull ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol</u></p> <p>Hysbysodd NS yn dilyn cyfarfod i drafod llywodraethu'r cydbwyllgor, mae GWE a Chyfarwyddwyr Addysg wedi cytuno i arwain ar y darn hwn o waith. Croesawir cyd-ddarpariaeth ar y fframwaith gan ALL, BIPBC, a ICC a bydd y gwaith yn cael ei adrodd trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.</p>	<p>Rhaglen Gorffennaf - RW Rhaglen Gorffennaf - RW</p>
<p>3.</p>	<p><u>Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Drais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</u></p> <p>Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan RE ar gynnydd gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol 2015. Y nod allweddol oedd gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru, rhoi cyfrifoldeb ehangach i bartneriaid o ran hyfforddi, gan sicrhau ymateb sefydliadol gyfan.</p> <p>Mae'r Bwrdd VAWDASV yn darparu gogwydd strategol i fodol VAWDASV Gogledd Cymru, gyda'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio, grwpiau Tasg a Gorffen a'r grŵp Cydgomisiynu yn helpu i ganfod bylchau mewn darpariaeth.</p> <p>Adroddodd RE gynnydd sylweddol mewn digwyddiadau trais domestig yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gyda chynnydd anferth mewn galwadau i'r llinell gymorth genedlaethol, gan arwain at straen anferthol ar wasanaethau.</p> <p>Mae swm sylweddol o gyllid brys LIC wedi cael ei ddiogelu a'i gymhwyso i gydlynu gwasanaethau cyflawnwr, gan ganfod arbenigwyr mewn meddygfeydd teulu ac ysbytai a hefyd i unedau i gefnogi'r rhai gydag anghenion cymhleth - iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, roedd y cyllid wedi'i ddarparu yn y tymor byr ac yn gysylltiedig â Covid.</p> <p>Adroddodd RE bod VAWDASV yn parhau i weithio gyda chydweithwyr BIPBC mewn perthynas â chymorth arbenigol o fewn meddygfeydd a rhoi hyfforddiant staff ar waith, i atgoffa pawb o'u dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn perthynas â thrais domestig.</p> <p>Mae cyllid wedi cael ei ddiogelu ar gyfer pilot addysgwr eirioli, sy'n gysylltiedig â chlwtwr meddygfeydd yng Ngogledd Sir Ddinbych, i ddarparu hyfforddiant a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau. Bydd y swydd hon hefyd yn penderfynu ar nifer y bobl a effeithir gan drais ddomestig yn yr ardal.</p>	<p>Diweddaria d blynyddol rhanbarthol VAWDASV – RE i anfon ymlaen i RW i'w rannu</p> <p>Anfon cyswllt BEJ/RW ymlaen i RE - RW</p>

Cynigodd aelodau BPRhGC gynorthwyo i wneud cysylltiadau pellach o fewn y bwrdd iechyd, a holwyd beth arall ellir ei wneud, i ymgysylltu ac atgyfeirio cydweithwyr ar y flaenoriaeth hon, gan ei fod yn thema ar draws y rhanbarth.

Roedd JW, fel cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn annod canolbwynt ar gohort ehangach o bobl sydd wedi'u heffeithio gan drais domestig, ac roedd yn cefnogi cydlyniaeth y gwaith trwy ddull cyson trwy'r rhaglen bartneriaeth.

Cadarnhaodd RE y pwysigrwydd o weithio gyda'r sector gwirfoddol, gyda chymaint o sefydliadau yn cefnogi'r cohort ehangach a phwysigrwydd estyn allan i gymaint o grwpiau yn y gymuned leol a gwledig.

Roedd JoW yn cefnogi'r cyswllt â gofal sylfaenol a holodd os oedd data ar gael i ddeall pe byddai gwaith pellach yn gallu cael ei gyflawni o fewn lleoliad aciwt gydag unigolion sy'n cyflwyno gyda niwed, ac i ddarparu cefnogaeth i staff pan geir y cyfle i edrych ar yr unigolyn cyflawn ac nid yr anaf yn unig.

Nododd RE bod y dull hwn wedi cael ei beilota yn flaenorol mewn lleoliad aciwt gyda llwyddiant cymysg. Byddai cyllid ar gael, pe byddai cefnogaeth partneriaeth gryf i hysbysu staff o'r broses atgyfeirio, er mwyn sefydlu'r ddarpariaeth mewn ysbytai cymunedol ar draws y rhanbarth.

Hysbysodd RE hefyd o'r anawsterau o gael mynediad at ddata o fewn lleoliad aciwt, gan fod yn ddibynnol ar wybodaeth a gofnodwyd ar yr amser a byddai'n croesawu trafodaeth ar y ffordd orau o gael y wybodaeth.

Roedd MW-J yn cefnogi gweithio gyda phlant sydd eisiau aros yng nghartref y teulu yn hytrach na gadael yn sgil trais yn y cartref, a holodd os oedd VAWDASV yn eirioli'r rhaglen ataliol yn lleol.

Cytunodd RE mai'r dull teulu cyfan oedd yn parhau i fod y flaenoriaeth fwyaf, a'r anhawster oedd buddsoddiad gan wasanaethau partner a'r sector arbenigol. Mae rhaglen gryf o gymorth i Blant a Phobl Ifanc, yn gweithio i eirioli a deall perthnasau.

Mae cwblhau'r modiwl e-ddysgu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gorfodol, gan sicrhau bod Arweinyddion Gwasanaethau Cyhoeddus yn cwblhau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer Cyfres Cryfhau Arweinyddiaeth a gofyn cwestiynau lles syml i'ch gweithlu yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth, oll yn gamau gall bawb eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon.

Diolchodd MW, ar ran BPRhGC, SH a RE ar gyfer y diweddariad cynhwysfawr.

4. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Iechyd a Gofal – Alwyn Jones/Nicola Stubbins

	<p>Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad llafar byr gan AJ am y Grŵp Iechyd a Gofal.</p> <p>Mae gwaith wedi parhau dros y misoedd diwethaf ar yr ymateb i Covid gyda diweddariadau isranbarthol gan y Dwyrain, Canolig a Gorllewin, a data wedi'i ddarparu gan y celloedd gwybodaeth i hysbysu gweithgarwch Covid. Yn sgil lleihad yn niferoedd Covid yn y rhanbarth, ac yn dilyn trafodaethau gyda Phrif Weithredwyr GC, bydd y Grŵp Iechyd a Gofal yn dod i ben a bydd y gwaith yn cael ei gynnwys yn rhaglen y Grŵp Arweinyddiaeth.</p> <p>Ychwanegodd NS bod y Grŵp Cydlynu Rhanbarthol (GCRh)wedi cael ei adsefydlu, ac yn dilyn trafodaeth ar y ffordd orau i gydlynu gwaith adfer yn y dyfodol, cytunwyd ar y canlynol fel blaenoriaethau adferiad Iechyd a Diogelwch o fewn trefniadau partneriaeth cyfredol, a gaiff eu goruchwyllo gan y Grŵp Arweinyddiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Gweithlu – yn canolbwyntio ar les, cadernid, pwysau a diffyg ar draws gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sut i ddarparu ar Strategaeth y Gweithlu, a oruchwylir gan y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol. • Cynaliadwyedd a sefydlogrwydd y farchnad, yn arbennig gofal cartref a phreswyl, gan gysylltu â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, canlyniad Papur Gwyn LIC; Ailgydbwyso Gofal a Chymorth a oruchwylir gan y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol. • Plant – canolbwyntio ar les a chadernid Plant a Phobl Ifanc, a oruchwylir gan yr is-grŵp BPRh Plant newydd, sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd. • Iechyd Meddwl – canolbwyntio ar Oedolion, Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys iechyd meddwl y Gweithlu a arweinir yn bennaf gan y Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. • Covid Hir – canolbwyntio ar effaith Covid ar bobl oedd yn derbyn gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu. • Ehangu'r defnydd o dechnoleg ddigidol/llwyfannau digidol <p><u>Arweinydd portffolio Iechyd a Gofal Cymdeithasol PSG ar y BPRh</u> Dywedodd NS nad oedd Arweinydd Portffolio Iechyd a Gofal Cymdeithasol PSG wedi ei ddynodi eto gan nad oedd PSGGC mewn sefyllfa i benodi cynrychiolydd arweiniol ar hyn o bryd yn sgil newidiadau o fewn y grŵp. Yn y cyfamser, bydd NS yn gweithredu fel cyswllt ar gyfer yr holl grwpiau gwahanol yn y GCRh.</p>	
<p>5. 5.1</p>	<p><u>Adroddiadau Chwarter 4 Rhaglenni Trawsnewid LIC:</u> <u>Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol – Alwyn Jones</u> Adroddodd AJ ar uchafbwyntiau'r adroddiad cynnydd chwarter 4, a'r meysydd allweddol o waith a gyflawnwyd ar draws y rhaglen yn y chwarter olaf, gan dynnu ar, a phwysleisio negeseuon allweddol a nodwyd o fewn yr adroddiad gwerthuso dros dro a ddatblygwyd gan yr IPC. Mae elfennau allweddol i'w nodi yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawnodd y rhaglen drawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol wariant llawn. 	

- Ychydig o oedi mewn nifer fechan o ffrydiau gwaith, yn sgil effaith covid gyda budd-ddeiliaid allweddol
- Mae'r rhaglen wedi cyflwyno data gweithgarwch a chanlyniadau ac astudiaethau achos manwl yn dangos gwaith ar draws y rhanbarth.
- Mae timoedd ardal yn gweithio'n galed i ddod â ffrydiau gwaith allweddol i ben, er mwyn galluogi amser dros y flwyddyn i ddod i ganolbwyntio ar weithredu'r ddysgeidiaeth o'r ffrydiau gwaith hyn.
- Felly bydd y canolbwynt eleni ar ehangu a chyflwyno'n ehangach
- Mae ystod o dechnoleg ddigidol wedi cael ei brynu i gefnogi digideiddio gofal a chymorth
- Mae gwaith i gryfhau a datblygu gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol a'r Tîm Aml-ddisgyblaeth wedi parhau, gyda thystiolaeth gynnar bod y gwaith yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant o fewn timoedd integredig

5.2

Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc - Nicola Stubbins

Adroddodd NS, er bod llithriant bychan yn y chwarter olaf, bod y Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc ar y trywydd iawn i ddarparu'r gwariant. Mae'r adroddiad yn darparu cyfrif cynhwysfawr o holl weithgareddau a gyflawnwyd ar draws y rhanbarth.

5.3

Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Teresa Owen

Adroddodd TO ar y gwaith gwych sydd wedi'i gwblhau hyd yma ar y Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Roedd tanwariant sylweddol yn parhau ar ddiwedd chwarter 4, yn sgil oedi gydag agor canolfannau ICAN a buddsoddiad yn yr isadeiledd gwirfoddoli ICAN yn sgil Covid-19. Ni wnaeth y prosiect tai Camu i Fyny / Camu i Lawr wneud y cynnydd disgwylidig yn 2020/21, ac yn ogystal â hynny, roedd un o'r ddau swydd Rheoli Risg a Phobl Ddiamddiffyn yn parhau i fod yn wag.

Mae gwaith arwyddocaol wedi cael ei ddatblygu yn ystod y chwarter i gynnwys trosglwyddo'r gwasanaeth ffôn ICAN, darparu hyfforddiant i amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Celcio, Anhwylder Personoliaeth, Therapi Ymddygiad Gwybyddol, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, cafodd 100 o bobl fynediad at gymorth ar gyfer defnydd o Therapi Ymddygiad Gwybyddol Silvercloud / ar sail ap, a derbyniwyd oddeutu 600 o atgyfeiriadau i ganolfannau ar gyfer cymorth yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Bydd cydweithwyr yn dechrau gweithio yn fuan ar strategaeth gwblhau a chynaliadwyedd y rhaglen yng Ngogledd Cymru trwy weithio mewn partneriaeth.

5.4

Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu - Neil Ayling

Dywedodd NA bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni gwariant llawn, heb unrhyw faterion sylweddol i'w hadrodd.

Yn y 12 mis diwethaf, canolbwyntiwyd ar:

- Ffrwd waith cyflogaeth Anableddau Dysgu – bydd gan fwy o bobl gydag anableddau dysgu, swyddi gyda thâl
- Ffrwd waith digidol – bydd mwy o bobl gydag anableddau dysgu yn defnyddio technoleg i fodloni eu canlyniadau

<p>5.5</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Iechyd – bydd yn haws i bobl gydag anableddau dysgu gymryd cyfleoedd sgrinio iechyd. Bydd holl feddygfeydd teulu yn cofrestru i ddarparu gwiriad iechyd blynyddol anableddau dysgu a newid eu gwasanaethau i’w gwneud yn haws i’w defnyddio. • Llai o leoliadau y tu allan i’r ardal leol • Bydd gan fwy o bobl gydag anableddau dysgu ddewis a rheolaeth dros le maent yn byw a sut cânt eu cefnogi. <p><u>Canolfan Ymchwil, Arloesi a Gwella (RIIC) - Morwena Edwards</u> Adroddodd ME danwariant ar ddiwedd y flwyddyn, oherwydd bod prosiectau newydd a gytunwyd gyda LIC yn cael eu darparu ar gost is na’r disgwyl.</p> <p>Mae’r Ganolfan RIIC wedi parhau i gefnogi holl Raglenni Trawsnewid, gwneud cynnydd gyda gwaith cenedlaethol, cydlynu amrywiaeth o weithgareddau yn y rhanbarth, darparu Gweithdai Asiantaeth Arloesi, digwyddiadau rhannu tystiolaeth a chyfathrebu ac ymgysylltu.</p> <p>Mae cyllid LIC ar gyfer Canolfan RIIC yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022, a bydd angen i bartneriaid rhanbarthol drafod yr opsiynau a chynaliadwyedd y prosiect. Bydd y gwaith ar y strategaeth arloesi ac ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn helpu i ganfod blaenoriaethau ar gyfer gwaith y ganolfan ar ôl Mawrth 2022. Fel y cytunwyd yng Nghynllun Blwyddyn 3, mae cysylltiadau eisoes wedi cael eu gwneud gydag Academi Ddysgu Ddwys Bangor ac Ysgol Meddygaeth ac Iechyd Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor, a thra fod nifer o gyfleoedd i’r ganolfan ychwanegu gwerth i’r prosiectau hyn, mae diffyg cyllid er mwyn cefnogi’r gwaith.</p> <p>Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r BPRhGC ar rôl y ganolfan, dewisiadau’r dyfodol a strategaeth ymadael yn ddiweddarach.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Cyfleoedd Cyllido’r Trydydd Sector - John Gallanders (JGal)/John Gladston (JGI)</u> Darparodd JGal ddiweddariad ar y gwaith cynlluniedig i’w gyflawni gyda’r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ganfod prosiectau a pharatoi cynigion yn barod ar gyfer unrhyw geisiadau cyllido yn y dyfodol ar gyfer prosiectau cyfredol a newydd unwaith i’r cyllid Trawsnewid/ICF ddod i ben, a hefyd argymhellion i newid cylch gorchwyl Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru cyn ei ail-lansio.</p> <p>Nid yw’r Fforwm Gwerth Cymdeithasol wedi cyfarfod am dros i 12 mis, yn sgil diffyg cadeirydd a phresenoldeb yn sgil blaenoriaethau Covid. Mae’r Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn ofyniad o dan BPRhGC a chytunodd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i enwebu cynrychiolwyr ALI, a chytunodd NA hefyd i ddod yn Gyfarwyddwr cynrychiolaeth y Grŵp Llywio.</p> <p>Hysbysodd JGal am gyfleoedd o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau a gofynnwyd a oedd gan aelodau BPRh unrhyw enghreifftiau mewn perthynas ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eu hardal ac enghreifftiau penodol i fynd ymlaen.</p>	

	<p>Yn dilyn trafodaethau, roedd y BPRhGC yn cytuno i gefnogi'r argymhellion canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol sy'n arwain ar Werth Cymdeithasol yn gweithio gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ganfod prosiectau presennol a fydd angen rhagor o gyllid unwaith i arian Trawsnewid/ICF ddod i ben. Bydd prosiectau newydd hefyd yn cael eu canfod a bydd cynigion yn cael eu paratoi ar gyfer unrhyw gyllid trydydd sector sydd ar gael. 2. Bydd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn dechrau cwrdd eto bob chwarter o fis Mai 2021 gyda Phrif Swyddog Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam fel Cadeirydd Dros Dro. Bydd cysylltiadau gyda'r NWSVN hefyd yn cael ei gryfhau er mwyn i'r ddau grŵp gytuno pa gynigion y dylai gael eu blaenoriaethu. 3. Gofynnir i'r BPRh nodi'r wybodaeth o fewn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhelliad i addasu'r cylch gorchwyl presennol ar gyfer y Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol i ehangu aelodaeth ar draws y rhanbarth. Hefyd gofynnir i'r BPRh awgrymu canllawiau ar gyfer aelodaeth a helpu diffinio ystod/mathau o sefydliadau a ddylai gael eu gwahodd i ymuno â'r Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol. <p>Hefyd, pwysleisiodd TO y ddysgeidiaeth o Werth Cymdeithasol o ardaloedd Gogledd-Orllewin Lloegr a Manceinion, ac efallai bod cyfle i ailymweld â'r gwaith hwn, a hefyd cysylltu â Dr Glynn Roberts, Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio'r gwaith hwn.</p>	<p>Rhaglen bob chwarter - Awst/Tach/Chwe/Mai - RW</p> <p>JGal i gysylltu â Dr GR.</p>
<p>7.</p>	<p><u>Adroddiad Blynyddol BPRhGC drafft - Nicola Stubbins</u> Cyflwynodd NS ddrafft cyntaf adroddiad blynyddol BPRhGC, yn seiliedig ar weithgarwch ffrydiau gwaith rhanbarthol o fewn 2020-2021. Mae'r adroddiad yn "waith sy'n mynd rhagddo" ac mae croeso i aelodau'r BPRhGC ddarparu sylwadau ac adborth erbyn 21.5.2021. Bydd y drafft terfynol yn cael ei gynnwys ym mhecyn cyfarfod BPRh mis Mehefin ar gyfer ei arwyddo cyn cael ei gyfieithu a'i anfon ymlaen i LIC erbyn 30.6.2021.</p>	<p>Sylwadau i RW erbyn 21.5.2021</p>
<p>8.</p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf ar Adeiladu Cymru Iachach - Teresa Owen</u> Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan TO o ran 'Adeiladu Gogledd Cymru Iachach', gan nodi'r cynnydd hyd yma, ac amlinellu parhad y prosiectau ar gyfer 2021/22 a fformat adrodd Llywodraeth Cymru.</p> <p>Dywedodd TO, er mwyn cyflawni gwelliannau yn iechyd poblogaethau a chyflawni enillion ar fuddsoddiad, cytunwyd y byddai'r cyllid yn cael ei flaenoriaethu tuag at ymyraethau atal yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar benderfynyddion ehangach iechyd a all gael eu darparu ar raddfa, a phenderfynwyd ar dri maes rhaglen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cychwyn yn iawn – Bydd prosiectau yn darparu cefnogaeth o enedigaeth, trwy blentynod a thu hwnt • Gwell gyda'n Gilydd • Galluogi newid a chefnogaeth <p>Dywedodd TO fod yr holl brosiectau wedi profi oedi yn sgil effaith Covid-</p>	

	<p>19, gyda nifer o staff allweddol yn cael eu hadleoli i swyddi eraill. Mae rheolwyr gwasanaeth a'u timoedd ynghyd â'r tîm iechyd cyhoeddus a phartneriaid wedi gweld capasiti darparu yn lleihau, o ystyried eu cyfranogiad i sefydlu a chyfrannu at TTP a brechlyn COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae oedi mewn derbyn arian i'r sefydliad a chadarnhad hwyr o natur rheolaidd y cyllid, wedi cyfrannu tuag at gynyddu'r risg o wneud cynnydd recriwtio.</p> <p>Rhannodd TO y newidiadau arfaethedig ar gyfer cynllun hirdymor 2021-22 gydag adnewyddiad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, gyda chanolbwynt cryfach ar y rhaglen anghydraddoldebau. Bydd gwaith craffu yn cael ei gryfhau gyda'r bwrdd wedi ymrwymo i wella gwaith gyda phartneriaid, a bydd y fforwm budd-ddeiliad yn darparu cyfle i drafod amcanion a rennir ar draws Gogledd Cymru.</p> <p>Oherwydd bod y rhaglen wedi darparu tanwariant sylweddol yn 20-21, mae'r defnydd o lithriant yn y dyfodol yn cael ei drafod ar hyn o bryd, gyda dewis i ddefnyddio'r BGC sydd â rhaglen sy'n alinio yn agos i les ac mae papur briffio ar y ffordd bydd hyn yn digwydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd.</p> <p>Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd i ailsefydlu gwasanaethau hanfodol a chynllun gweithredu blynyddol y Bwrdd Iechyd gyda chanolbwynt newydd ar wasanaethau lles a gofal sylfaenol, bydd Cynllun Adeiladu Cymru Iachach 21/22 yn ceisio defnyddio'r dyraniad llawn.</p> <p>Hefyd rhoddodd TO wybod am nifer o brosiectau a gafodd ganmoliaeth: Llythrennedd corfforol, Lles Gogledd Cymru, gwaith ar dybaco a llawer iawn o waith wedi'i gwblhau ar fynd i'r afael â thlodi ym mhocedi ar draws Gogledd Cymru. Mae nifer o flaenoriaethau o fewn gwaith Plant a'r Blynyddoedd Cynnar ar Cychwyn yn lawn hefyd yn cysylltu gyda gwaith y rhaglen drawsnewid sy'n digwydd ar hyn o bryd ar draws y rhanbarth.</p> <p>Diolchodd y cadeirydd i TO am yr adroddiad llawn a chytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r argymhellion:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi'r cynnydd 2. Cyfnod adrodd yn y dyfodol yn adlewyrchu cyfnodau adrodd LIC (Ebrill – Medi 21, Hydref 21 – Mawrth 22) ac yn defnyddio fformat adrodd LIC er cysondeb. 3. Nodi bod yr Adroddiad LIC drafft ynghlwm i'w ddychwelyd i LIC erbyn 21 Mai 2021 (yn ôl disgwyliadau llywodraethu Cenedlaethol). 	<p>RW i rannu adroddiad LIC gyda'r BPRhGC.</p>
<p>9.</p>	<p><u>Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mwy Na Geiriau – Gogledd Cymru 2019/20 2020/21 – Morwena Edwards</u></p> <p>Cyflwynodd ME, cadeirydd y Fforwm Mwy na Geiriad, yr adroddiad blynyddol o'r 2 flynedd diwethaf (2019-2021), i'w cymeradwyo gan y BPRhGC. Mae'r adroddiad yn cyflwyno trosolwg o'r math o weithgaredd a gwaith sy'n digwydd ac nid yw'n gyfrif cynhwysfawr o waith yr holl bartneriaid.</p> <p>Mae Mwy na Geiriau yn canolbwyntio ar rannu arferion da, dysgu gan eraill, canfod rhwystrau, hefyd i weithredu fel grŵp arbenigol ar gyfer</p>	

	<p>ffrydiau gwaith eraill, fel bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu corffori i ddatblygiadau o'r lle cyntaf.</p> <p>Er bod cyfarfodydd wedi'u cynnal yn llai aml yn 2020, mae'n gadarnhaol nodi bod gwaith ar y rhaglen bwysig hon wedi parhau.</p> <p>Nododd ME yr heriau o weithio mewn tимоedd integredig o ran y defnydd o iaith – pwysigrwydd o beidio â cholli'r Gymraeg o ganlyniad i'r ffyrdd gwahanol o weithio ac anogodd ME i holl aelodau BPRhGC ddefnyddio'r fforwm fel pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw broblemau iaith Gymraeg.</p> <p>Gofynnir i'r BPRhGC ystyried a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru ar gyfer 2019/21. Unwaith y caiff ei gymeradwyo bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Iaith Gymraeg sy'n cael ei gyd-gadeirio gan Albert Heaney a Simon Dean.</p> <p>Gofynnodd MW i aelodau BPRhGC ymrwmo i gyflawni'r hyfforddiant Cymraeg 10 awr ar-lein ac i roi gwybod unwaith ei fod wedi cael ei gwblhau. Hefyd, fe heriodd ME i aelodau'r BPRh ddefnyddio eu siliau Cymraeg ar bob cyfle, a chefnogi'r feddalwedd Zoom sy'n cefnogi llwyfan cyfieithu ar y pryd gwell ar gyfer y BPRh.</p> <p>Nododd HC bod HGC yn wynebu heriau diogelwch o ran defnyddio'r llwyfan Zoom, a dywedodd bod HGC yn defnyddio'r fersiwn newydd o Microsoft sydd hefyd yn darparu mynediad at gyfieithu. Cynigodd ME i gysylltu â HC ar wahân i drafod y mater.</p> <p>Roedd y BPRhGC yn gytûn i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru ar gyfer 2019/21.</p>	<p>RW i rannu'r ddolen</p> <p>Aelodau'r BPRh i roi gwybod unwaith y cwblheir</p>
<p>10.</p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf ar frechiad Covid - Ffion Johnstone</u> Darparodd FJ y wybodaeth ddiweddaraf ar y Brechiad Covid:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Gogledd Cymru yn parhau i frechu yn ddi-oed • Ar hyn o bryd yn brechu pobl 40 oed ac iau • Mae newidiadau diweddar gan y JCVI yn cynghori y dylai'r rhai 39 oed ac iau gael y brechlyn Pfizer yn hytrach na'r Astra Zeneca, gan arwain at adolygu lefelau stoc. • Parhau i weithio i'r targed o ddarparu'r brechiad cyntaf erbyn 31.7.2021 • Mae LIC wedi dechrau cynllunio ar gyfer y pigiad atgyfnerthu, mae canllawiau a dewisiadau yn cael eu hystyried a fydd yn debyg i feini prawf y fflw • Mae MVC Gogledd Cymru yn y broses o gael ei ddigomisiynu gyda dyddiad cau o 31.7.2021, gyda gofal sylfaenol, lleoliadau lleol a safleoedd gwledig dros dro yn cael eu defnyddio fel canolfannau brechu amgen <p>Cytunodd FJ rannu'r ffigyrau brechu gydag aelodau'r BPRhGC.</p> <p>Llongyfarchodd aelodau BPRhGC FJ a'r tîm BIPBC ar y gwaith ardderchog sy'n digwydd i frechu poblogaeth Gogledd Cymru.</p>	<p>FJ i ddarparu ffigyrau brechu</p>

<p>11</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u> Hysbysodd y Cyng. BF bod Chwaraeon Cymru wedi cael ei ailstrwythuro a bellach fe'i hadnabyddir fel Chwaraeon Gogledd Cymru, a gyda phwysigrwydd chwaraeon mewn perthynas â lles, awgrymwyd bod y Bwrdd/JGal yn sefydlu dolen i'r sefydliad.</p> <p>Holodd y Cyng. JL ynglŷn â'r gwaith adferiad a gynhaliwyd yn BIPBC h.y. rhestrau aros a chynlluniau yn y dyfodol.</p> <p>Darparodd JoW ddiweddariad cynhwysfawr ar gyfer y bwrdd, gan ystyried gwyliadwriaeth am drydedd don posibl, a bod yn barod i ymateb yn sydyn os fydd angen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dechrau gweithgareddau cleifion allanol, llawdriniaethau diwrnod yn raddol • Mae'r gallu i drin cymaint o gleifion â phosibl yn parhau i gael ei effeithio yn sgil cadw pellter cymdeithasol a gofynion Cyfarpar Diogelu Personol • Ystyrir gweithio nosweithiau a phenwythnosau i leihau rhestrau aros, yn arbennig profion diagnostig a gwaith lluniau • Bydd BIPBC yn cysylltu â holl gleifion ar y rhestrau aros i egluro'r broses o ddechrau gwaith arferol, holi os yw pobl yn barod i dderbyn triniaethau mewn lleoliadau eraill / defnyddio ysbytai'r sector preifat yng Ngogledd Cymru, a hyblygrwydd dyddiadau/amseroedd • Mae blinder staff angen cael ei ystyried, gan nad yw staff wedi cael cymryd eu gwyliau yn sgil y pandemig • Ystyriaethau pellach o'r rhaglen ataliol • Mae llawdriniaethau orthopedig, sy'n cael eu perfformio mewn theatrau gydag offer arbenigol ar gyfer rhesymau rheoli haint, yn cyflwyno heriau o ran mynd i'r afael â'r rhestr aros • O ystyried y posibilrwydd o ganolfan cataract Gogledd Cymru, bydd angen cyllid ar gyfer y datblygiad • Mae deintyddiaeth yn parhau i fod yn her anferth o ran natur y gwaith a gweithdrefnau erosoli <p>Cynigodd JoW i ddarparu diweddariad rheolaidd ar waith adfer BIPBC.</p> <p>Adroddodd MWim ar drafodaeth o gyfarfod cadeiryddion BPRh diweddar, lle cynigodd un rhanbarth i aelodau anstatudol o'r BPRh y dewis o fynychu cyfarfodydd paratoadol y BPRh i wella ymgysylltiad a chyfranogiad ac i sicrhau bod yr holl gyfarfodydd yn hygyrch i bawb. Bydd gwahoddiad dyddiadur i'r cyfarfod paratoadol yn cael ei rannu ac mae croeso i aelodau fynychu.</p>	<p>Eitem sefydlog ar raglen y BPRh - RW</p> <p>RW i rannu gwahoddiad cyfarfod paratoadol ar gyfer BPRhGC</p>
<p>12</p>	<p>Er gwybodaeth: Fframwaith ar gyfer gwreiddio dull ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol (trafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill o dan Unrhyw Fater Arall)</p>	
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 11 Mehefin 2021, 9:00 – 12:00</p>	